Cyfarfod o'r Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned

Nos Iau, 8 Medi 2022 am 6.30 yh

Cyfarfod Rhithiol (Zoom):

Rhaglen

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

2. Cofnodion

   Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2022 – ynghlwm.

3. Trosolwg o'r Etholiadau Lleol 2022

4. Pwyllgor Safonau'r Cyngor

   Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau i roi amlinelliad o waith y Pwyllgor – cylchlythyr y Pwyllgor Safonau ynghlwm.

5. Cynllun y Cyngor 2023-2028

   Amlinelliad o'r Cynllun drafft a'r broses ymgynghori.

6. Unrhyw fater arall

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned

Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar nos Lun, 7 Chwefror 2022 am 6.30 yh

Presennol:

Cynghorau Tref a Chymuned

Cyng Gordon Warren	Amlwch
Cyng Liz Wood	Amlwch
Cyng Eurfryn Davies	Cwm Cadnant
Cyng Brian Potter	Llanbadrig
Geraint Parry (Clerc)	Llanddona
Cyng Delyth Owen	Llanfaelog
Cyng Ifor Gruffydd	Llanfairpwll
Cyng Einion Williams	Llanfihangel Ysgeifiog
Cyng Margaret Thomas	Llangefni
Alun Foulkes (Clerc)	Llangoed
Sydna Roberts (Clerc)	Llannerch-y-medd
Rhianwen Sheldon (Clerc)	Pentraeth
Cyng Ella Fisk	Porthaethwy
Cyng Rhodri Williams	

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyng Llinos Medi	Arweinydd y Cyngor (Cadeirydd)
Cyng Ieuan Williams	Dirprwy Arweinydd y Cyngor
Cyng Eric Wyn Jones	Ardal Etholiadol Bro Rhosyr
Cyng Gwilym O Jones	Ardal Etholiadol Llifon
Annwen Morgan	Prif Weithredwr
Dylan Williams	Dirprwy Brif Weithredwr
Marc Jones	Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151
Rhian Wyn Jones	Swyddog Polisi

Cyfeiriodd yr Arweinydd at brofedigaeth ddiweddar y Cynghorydd Gareth Winston Roberts ar farwolaeth drist ei fab. Gofynnodd i Gadeirydd Cyngor Tref Amlwch, y Cynghorydd Liz Wood, gyfleu cydymdeimlad aelodau'r fforwm i'r Cynghorydd Roberts a'i deulu.

Estynodd yr Arweinydd ei dymuniadau gorau i Annwen Morgan, a fyddai'n ymddeol yn fuan o'i swydd fel Prif Weithredwr. Bu i'r aelodau'r fforwm ategu dymuniadau gorau'r Arweinydd, gan ddiolch i'r Prif Weithredwr am ei hymroddiad parod tuag at ymgysylltu â chymunedau'r ynys.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

1. **Ymddiheuriadau**

Cynghorau Tref a Chymuned

Biwmares:	Cyng Rhian Jones; Catrin Owen (Clerc)
Caergybi:	Cyng Ann Kennedy; Robert Henderson (Clerc)
Llanfairpwll:	Cyng Gareth Cemlyn Jones
Llangefni:	Cyng J Egryn Lewis
Trearddur:	Cyng Keith Roberts; Cyng Bill Rowlands
Y Fali:	Cyng Mavis Swaine-Williams
Trewalchmai:	Cyng Edna Jones; Margaret Price (Clerc)

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyng Robin Williams	Deilydd Portffolio Cyllid
Cyng Meirion Jones	Deilydd Portffolio Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant
Cyng Glyn Haynes	Cadeirydd y Cyngor Sir
Cyng Dafydd Roberts	Adran Etholiadol Bro Rhosyr

2. Cofnodion

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2021 fel rhai cywir. Yn codi:

Adolygiad o drefniadau etholiadol y Cyngor Sir - diweddariad

Cymerodd y Prif Weithredwr y cyfle i hysbysu aelodau'r fforwm y bwriedir cynnal sesiynau rhithiol ar gyfer darpar ymgeiswyr ar y dyddiadau isod. Eglurodd bod croeso i bawb fynychu a bod manylion pellach o ran sut i ymuno â'r sesiynau hyn ar gael ar wefan y Cyngor Sir:

10 Chwefror 2022, 6-7yh: Etholiadau'r Cyngor Sir
17 Chwefror 2022, 6-7 yh: Etholiadau'r cynghorau tref a chymuned

3. Cynigion Cyllidol 2022 i 2023

Cafwyd trosolwg gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau o gynigion cyllidol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2022/23.

Cyllideb Refeniw 2022/23

Mae'r setliad ariannol cychwynnol gan Lywodraeth Cymru yn well ar gyfer 2022/23 nag ers sawl blwyddyn, gyda chynnydd o 9.23% i Ynys Môn. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod y setliad yn cynnwys disgwyliad bod y meysydd isod yn cael eu hariannu allan o'r cynnydd hwn:

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

- Ariannu gwir gyflog byw yn y sector gofal cymdeithasol
- Cynnal lefelau presennol o ran atal digartrefedd
- Costau ychwanegol o ran delio efo Covid-19 a colledion incwm yn 2022/23
- Costau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Cost dyfarniad tâl athrawon o fis Medi 2022

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn dymuno cymryd y cyfle eleni i ymateb i gynnydd mewn pwysau trwy ail-fuddsoddi mewn rhai meysydd gwasanaeth a golygai hyn y byddai angen cynnydd o 2% yn y Dreth Gyngor. Eglurwyd bod rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor, fel rhan o'r ymgynghoriad, a fyddai'n cau ar 9 Chwefror. Oherwydd yr amserlen dynn eleni, bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried y cynigion mewn mwy o fanylder, ynghyd â'r ymatebion i'r ymgynghoriad, cyn gwneud eu cynigion terfynol.

Cyllideb Gyfalaf 2022/23

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn dymuno blaenoriaethu'r meysydd isod yn y gyllideb gyfalaf yn 2022/23:

- Buddsoddi mewn asedau presennol, gan gynnwys cynyddu'r gyllideb ar gyfer ail-wynebu ffyrdd, a groesawyd gan aelodau'r fforwm.
- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl
- Prosiectau unwaith ac am byth
- Ysgolion yr 21ain Ganrif
- Cyfrif Refeniw Tai

Amlinellir isod y prif pwyntiau a wnaed yn ystod y drafodaeth ddilynol:

Porthladd Caergybi: Gofynnwyd a oedd cyllid wedi'i glustnodi yn y gyllideb ar gyfer sefydlu Awdurdod Iechyd Porthladd newydd yng Nghaergybi (Llanddona).

Eglurodd yr Arweinydd bod arian ychwanegol wedi'i glustnodi o'r balansau cyffredinol, ond bod cais hefyd wedi'i wneud i Lywodraeth Cymru am gyllid i gwblhau'r gwaith hwn. Nid yw'r sefyllfa'n glir ar hyn o bryd, ac mae'r trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru.

Toiledau Cyhoeddus - Gwariant cyfalaf: Gofynnwyd am eglurhâd o'r gwariant a glustnodwyd ar gyfer toiledau cyhoeddus yr ynys, gan fynegi pryder bod cynghorau cymuned sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am doiledau wedi gwario'n sylweddol eisoes (Llanfaelog).

Eglurodd yr Arweinydd mai'r cam cyntaf fyddai adolygu'r ddarpariaeth bresennol ar draws yr ynys gyfan, er mwyn datblygu strategaeth addas i'r dyfodol.

Toiledau Cyhoeddus - Rhyddhad o'r Dreth Fusnes: Nododd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau, bod Llywodraeth y DU bellach wedi cymeradwyo'r Ddeddf Ardrethu Annomestig (Toiledau Cyhoeddus) 2021 sy'n

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

caniatau 100% o ryddhad o'r Dreth Fusnes, wedi'i ôl-ddyddio i Ebrill 2020. Mae'r Cyngor yn disgwyl gwybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru cyn trefnu i ad-dalu'r cynghorau perthnasol.

Annogwyd y cynghorau i ymateb yn unigol i'r ymgynghoriad a fyddai'n dod i ben ar ddydd Mercher, 9 Chwefror.

4. Unrhyw fater arall:
Ymdrîn â cheisiadau cynllunio mawr – cefnogaeth arbenigol

Cyfeiriwyd at geisiadau cynllunio mawr a ddisgwylir o fewn ardal CC Llanfaelog a gofynnwyd am gefnogaeth arbenigol i lunio ymateb i'r ymgynghoriadau cynllunio.

Eglurodd y Dirprwy Brif Weithredwr na fyddai'n briodol i'r Cyngor Sir, fel yr awdurdod cynllunio, gynnig cefnogaeth arbenigol mewn perthynas â cheisiadau unigol. Awgrymodd y dylid cysylltu â Chymorth Cynllunio Cymru neu ddod i gytundeb ariannol efo cwmni proffesiynol.

Wrth gloi, nodwyd mai'r cyfarfod hwn fyddai cyfarfod olaf y Fforwm Cyswllt cyn yr etholiadau lleol ar 5 Mai. Diolchodd yr Arweinydd i'r cynghorau cymuned am eu parodrwydd i ymgysylltu â'r Cyngor Sir ac am eu gwaith o fewn eu cymunedau.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.30 yh.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

NEWYDDLEN Y PWYLLGOR SAFONAU CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

2il o Fedi 2022 - Rhifyn 4

CYFLWYNIAD

Hoffai'r Pwyllgor Safonau eich llongyfarch i gyd ar gael eich ethol neu eich ailethol yn gynghorwyr tref / gymuned. Mae'r Pwyllgor Safonau yma i'ch cefnogi i gadw at y cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan eich cyngor. Fel y gwyddoch, mae cynnal y lefelau uchaf o ymddygiad moesegol yn rhan hanfodol o'ch rôl wrth gynrychioli'r cyhoedd.

DATGAN DIDDORDEB

Mae canllawiau lleol wedi'u cyhoeddi i Gynghorwyr ar ddatganiadau o ddiddordeb ac maent wedi'u darparu i'ch clercod*. Mewn rhai amgylchiadau mae'n bosibl cael caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau i gymryd rhan mewn penderfyniadau, hyd yn oed os oes gennych ddiddordeb sy'n rhagfarnu (fel yr ydych yn gwybod, mae hwn yn ddiddordeb personol sylweddol sy'n golygu nad ydych yn cael cymryd rhan mewn trafodaeth neu bleidleisio). Mae canllawiau lleol ar sut i wneud cais am ganiatad arbennig wedi'u darparu i'ch clercod*. Cysylltwch â'r Swyddog Monitro am gyngor a chymorth wrth gyflwyno unrhyw gais y dymunwch ei wneud.

*Byddai'r Swyddog Monitro yn hapus i ddarparu copïau pellach ar gais.

PANEL DYFARNU CYMRU

- Panel Dyfarnu Cymru sy'n gwneud penderfyniad ar achosion difrifol o dorri'r cod ymddygiad. Mae'r Panel yn dribiwnlys sy'n cynnal gwrandawiadau cyhoeddus.
- Adroddir ar yr achosion hyn yn llawn ar wefan y Panel Dyfarnu sydd ar gael ar y ddolen hon
- Os byddai'n well gennych chi weld crynodeb o'r achosion hyn fe adroddir arnynt i'r Pwyllgor Safonau. Mae'r crynodeb diweddaraf a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau ar gael yn y fan yma.

DATBLYGU AELODAU

- Mae darparu hyfforddiant i chi ar eich cod ymddygiad yn rhan o rôl y Pwyllgor.
- Felly, rydym wedi ysgrifennu at bob clerc i gynnig sesiynau hyfforddi rhithiol ,1.5 awr o hyd, ar y dyddiadau a ganlyn:

Dydd Mawrth 4ydd Hydref, 2pm -Cymraeg
Dydd Iau 6ed Hydref, 6.30pm – Saesneg
Dydd Mawrth 18fed Hydref, 2pm - Saesneg
Dydd Iau 20fed Hydref, 6.30pm – Cymraeg

- Mae lleoedd yn gyfyngedig, felly os ydych yn gallu mynychu un o'r sesiynau yna rhowch wybod i'ch clerc cyn gynted â phosibl.

EGWYDDORION NOLAN

Wrth gytuno i ddod yn Gynghorydd fe wnaethoch chi hefyd gytuno i gadw at yr egwyddorion ymddygiad ar gyfer bywyd cyhoeddus a adwaenir yn gyffredinol fel Egwyddorion Nolan. Yng Nghymru, mae'r rhain yn cynnwys y canlynol

·Anhunanoldeb
·Gonestrwydd
·Unplygrwydd a phriodoldeb
·Dyletswydd i gynnal y gyfraith
·Stiwardiaeth
·Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
·Cydraddoldeb a pharch
·Bod yn agored
·Atebolrwydd
·Arweinyddiaeth

ADOLYGIADAU LLYWODRAETHU ANFFURFIOL

Mae'r Pwyllgor yn cynnal adolygiadau llywodraethu o rai cynghorau tref/cymuned; edrych ar ymrwymiadau, datganiadau o ddiddordeb, cofnodion a chofnodion hyfforddiant. Pan fu'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal adolygiadau o'r fath, byddent yn cysylltu â'r clercod perthnasol ymlaen llaw. Rydym yn ddiolchgar iawn i'ch clercod am y cymorth y maent wedi'i roi i ni yn y gorffennol.

- Bydd pob cyngor a adolygir yn derbyn adborth ysgrifenedig ac unrhyw argymhellion, i'w hystyried gan bob aelod o'r cyngor, ond ar sail anffurfiol
- Rhoddir adborth cyffredinol a dienw i bob cyngor hefyd, gan gynnwys unrhyw argymhellion a rhannu arfer da. Byddwn yn gofyn i'r adborth hwn gael ei rannu mewn cyfarfod ffurfiol o'r cyngor

MONITRO YMDDYGIAD

Mae'r Pwyllgor hefyd yn bwriadu, o bryd i'w gilydd, anfon dau o'i aelodau i fonitro ymddygiad yng nghyfarfodydd cyhoeddus rhai cynghorau tref/cymuned. Gobeithiwn gyflawni hyn o bell a byddwn yn cysylltu â'r clercod perthnasol er mwyn gwneud y trefniadau.
Bydd aelodau'r Pwyllgor yn rhoi adborth cynnar i'r cadeirydd a'r clerc; a gall gynhyrchu canfyddiadau cyffredinol i'w dosbarthu i bob cyngor. Bydd y trefniadau monitro hyn yn dechrau yn 2023.

DYLETSWYDDAU CYFREITHIOL NEWYDD AR GYNGHORAU TREF/CYMUNED

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 rhaid i gynghorau tref a chymuned:

- Cynhyrchu cynllun hyfforddi blynyddol ar gyfer ei gynghorwyr a'i staff, gyda'r cynllun cyntaf yn ofynnol o fewn 6 mis i'r etholiad llywodraeth leol diwethaf ar 5 Mai 2022. Mae'r cynllun hyfforddi yn ddogfen y bydd y Pwyllgor yn gofyn amdani pan fydd yn cynnal ei adolygiadau.
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol.
- Mae Un Llais Cymru yn cefnogi ei aelodau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd.

AC YN OLAF...

Mae'r Pwyllgor Safonau angen 2 gynrychiolydd gynghorau tref / cymuned i eistedd ar y Pwyllgor. Mae ceisiadau wedi cael eu hanfon at Glercod y gynghorau tref a chymuned gyda dyddiad cau ar gyfer ymateb erbyn diwedd mis Medi 2022. Os nad yw eich cyngor wedi trafod y cais hwn eto, gofynnwn i chi wneud hynny, ac ystyried cyflwyno enwebiad. Mae'r ffurflen gais berthnasol wedi ei darparu i bob clerc. Os bydd mwy na dau ymgeisydd yn cael eu henwebu, bydd proses pleidlais bost yn dilyn.

Hefyd, rhowch wybod i'ch clercod os ydych yn dymuno mynychu unrhyw un o'r sesiynau hyfforddi a nodir uchod.

Nodyn i'ch atgoffa bod y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned lleol i fod i gael ei gynnal ar 8 Medi 2022.
Sicrhewch fod eich cyngor yn cael ei gynrychioli.
Bydd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor yn cael ei ystyried gan y Cyngor Sir ar y 29ain o Fedi 2022 a bydd ar gael i chi ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn